Alffred Fawr 849–899

Brenin Wessex

Yn ystod y nawfed ganrif daeth Lloegr a'r ffydd Gristnogol dan fygythiad oherwydd cyrchau'r Llychlynwyr o Ddenmarc. Eto arbedwyd Lloegr trwy arweiniad Alffred, brenin Wessex, a deyrnasodd am 28 o flynyddoedd ac a orchfygodd y gelyn gan ailsefydlu Cristnogaeth.

Ganed Alffred yn Wantage, Swydd Rhydychen, yn 849, yr ieuengaf o bedwar mab i Ethelwulf, brenin Wessex. Roedd ei rieni yn Gristnogion a rhoesant i'w meibion hyfforddiant crefyddol. Wrth i Alffred dyfu dechreuodd gymryd ei ffydd o ddifrif a dylanwadodd hyn ar ei deyrnasiad fel brenin. Dysgodd ddarllen pan oedd oddeutu deuddeg oed ac fe gafodd flas anghyffredin ar ddarllen. Dysgodd ar ei gof wasanaethau dyddiol yr eglwys, salmau a nifer o weddïau ac yn ystod ei ieuenctid ymwelodd â Rhufain. Pan aeth yno am y tro cyntaf arhosodd mewn Coleg Saesneg a'r eildro aeth gyda'i dad gan ymweld ag Eglwys Sant Pedr a beddrodau'r apostolion Paul a Phedr.

Pan oedd yn ddwy ar hugain oed, wedi marwolaeth ei dad a'i dri brawd, etifeddodd orsedd Wessex. Ers i Lindisfarne gael ei ddinistrio yn 793 roedd y Llychlynwyr wedi ymosod yn gyson ar Loegr, yn enwedig ar yr eglwysi a'r mynachlogydd. Yn 865 ymosododd byddin o Lychlynwyr dan arweiniad Ivar y Diasgwrn ar East Anglia. Gorchfygwyd Northumbria a meddiannwyd y rhan fwyaf o Mersia ac yna yn 872 trechwyd Llundain.

Daeth Alffred yn frenin yn 871 ac yn ystod ei flwyddyn gyntaf ymladdodd naw brwydr. Yn 878 bu brwydr yn Edington i'r de o Chippenham a fu yn drobwynt i'r ymladd. Gorfodwyd y Llychlynwyr i geisio heddwch ac o ganlyniad trodd y Brenin Guthrum a 29 o benaethiaid llwyth at Gristnogaeth. Derbyniwyd Alffred fel arweinydd pobl rydd Lloegr.

Yn sgil yr heddwch gyda'r Llychlynwyr cafodd Alffred amser i gryfhau ei sefyllfa trwy adeiladu ei amddiffynfeydd. Creodd lynges i amddiffyn yr arfordiroedd. Ystyrir Alffred heddiw yn dad Llynges Lloegr. Roedd

yn eiddgar i sefydlu Cristnogaeth fel rhywbeth canolog ym mywyd ei bobl, gan eu hannog i fyw yn ôl dysgeidiaeth y Beibl.

Dechreuodd adnewyddu mannau Cristnogol a ddinistriwyd gan yr ymosodwyr. Sefydlodd abaty yng Nghaer-wynt (Winchester), mynachlog yn Athelney a lleiandy yn Shaftesbury.

Yr oedd yn ŵr hael iawn. Rhoddai hanner ei enillion i Dduw gan eu rhannu rhwng y tlodion, y mynachlogydd a'r ysgolion a mynachdai yn Mersia a thu hwnt. Byddai hefyd yn anfon rhoddion blynyddol i Rufain. Roedd yn ddyn duwiol a fynnai lywodraethu dros ei ddeiliaid yn gyfiawn. Tua diwedd ei oes cyflwynodd gyfreithiau newydd ac yn y cyflwyniad iddynt dyfynnai'r deg gorchymyn a rheol euraid yr Iesu. Gwnaeth hyn er mwyn dangos sylfaen Gristnogol y gyfraith.

Rhwng 892 a'i farwolaeth yn 899 cynhyrchodd gyfieithiad Saesneg o bum gwaith Lladin yn cynnwys *Hanes yr Eglwys yn Lloegr* gan Beda, *Soliloquies* Awstin Sant a llyfr o fyfyrdodau Beiblaidd. Trwy ei waith gosododd sylfeini ar gyfer teyrnas Gristnogol yn Lloegr. Claddwyd ei weddillion yng Nghadeirlan Caer-wynt ac yna yn yr abaty.